
# Gwerthusiad Bridio Cenedlaethol Defaid Mynydd

## Gwerthusiad genetig newydd ar gyfer bridiau mynydd

Mae'r DU yn arwain y byd o ran geneteg defaid; cofnodwyd dros filiwn o ŵyn yn ystod y 25 mlynedd diwethaf, a chafwyd gwelliant mawr yn y diadelloedd â chofnodion perfformiad. Rydym wedi cyflawni llawer.




Yn 2020, bydd dadansoddiad aml-frid newydd yn cael ei lansio ar gyfer bridiau mynydd, a bydd hyn o fudd am y rhesymau canlynol:

- Gwella'r Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBVau) sy'n bodoli i'w gwneud yn fwy masnachol
- Rhoi sail newydd i EBVau i'w gwneud yn haws i brynwyr hyrddod masnachol eu dehongli
- Gwerthusiadau bridio mwy rheolaidd
- Mynegrifau bridio wedi'u diweddaru.

Hefyd, dechreuwyd ar ymchwil er mwyn creu EBVau ar gyfer nodweddion newydd fel goroesiad ŵyn a hirhoedledd mamogiaid.

## Ffordd newydd o asesu cyhyrau a braster mewn defaid mynydd




Bu'r diwydiant defaid yn y DU yn arloesi'r defnydd o sganio uwchsain i asesu lefelau cyhyrau a braster ar draws y lwyn.

Yn hanesyddol, cafodd nodweddion fel trwch cyhyrau eu haddasu yn ôl oedran er mwyn canfod ŵyn sy'n datblygu cyhyrau wedi cyrraedd oedran penodol, waeth beth fo'u pwysau.

Mae'n bosibl fod y defaid sydd ag EBVau Trwch Cyhyrau uchel wedi eu cael mewn dwy ffordd:

- Bod yn fawr; mae'r defaid mwyaf eu maint yn tueddu i fod yn fwy cyhyrog
- Bod â thrwch braster mawr, yn unol â'u pwysau

Mae'n bosibl eisoes i fridwyr ddewis ar gyfer cyfradd twf, ac felly mae'n well asesu cyhyredd ar wahân i dwf; hynny yw, cymharu cyhyredd/braster yn ôl pwysau penodol, yn hytrach nag oedran penodol.

Gyda'r gwerthusiad newydd, caiff yr holl EBVau nodweddion-carcas eu cymhwyso yn ôl pwysau yn hytrach nag oedran.

**Cyd-destun masnachol**

*Mae'r dull newydd o fudd i ffermwyr masnachol gan y bydd yn eu galluogi i wneud y gorau o gyhyredd a phesgi pan fydd ŵyn o bwysau penodol yn cael eu dewis i'w lladd. Ar gyfer bridiau mynydd, mae'r dull hwn yn berthnasol iawn oherwydd mae'n golygu y gallwn wneud bridiau mynydd yn fwy cyhyrog heb gynyddu maint llawn-dwf y famog.*

# Cofnodi defaid mynydd yn well



**Pa fridiau sy'n ymwneud â hyn?**

Ar hyn o bryd mae'r dadansoddi'n cynnwys yr holl fridiau mynydd â nifer uchel o ddefaid ac sydd â chofnodion da. Bydd Signet yn cyhoeddi canlyniadau ar gyfer y bridiau canlynol yn 2020: Defaid Mynydd Cymreig, Defaid Mynydd De Cymru, Beulah, Penfrith Caled, Cheviot Parc Gogledd Lloegr, Cheviot De Lloegr, Cheviot Mynydd Gogledd Lloegr, Herdwick, Rough Fell, ac Ynys Heledd.

Bydd Signet yn siarad â bridwyr Defaid Wynebddu'r Alban a Swaledale yn ddiweddarach yn y tymor ynghylch defnyddio'r dulliau hyn yn y dyfodol agos.

**Mynegrif bridio newydd i ddefaid mynydd**

Cafodd mynegrif bridio newydd ei greu gan y genetegydd Janet Roden i helpu bridwyr a phrynwyr i ddewis yr hyrddod mynydd mwyaf proffidiol ar gyfer mentrau ffermio mynydd masnachol.

Nod y mynegrif yw gwella perfformiad mamogiaid mynydd trwy:-

- Gwella cyfraddau twf a chydffurfiad carcasau'r ŵyn
- Gwella perfformiad y mamau o ran cynhyrchu llaeth a gofalu am eu hŵyn
- Magu'r nifer fwyaf posibl o ŵyn ar y mynydd.

Mae'r mynegrif mynydd newydd yn anelu at wneud mamogiaid mynydd yn fwy effeithlon heb gynyddu eu maint llawn-dwf a'r gost o'u cadw – a heb amharu ar eu goroesedd neu ffitrwydd ar y mynydd.

**Diweddaru EBVau sy'n bodoli**

Diwedarwyd EBVau ar gyfer rhwyddineb ŵyna, nifer yr ŵyn, rhinweddau mamol a chyfrifiad wyau ysgarthol a defnyddiwyd yr ymchwil ddiweddaraf i'w gwneud yn fwy defnyddiol i ffermwyr masnachol.

**Defnyddio 2015 yn sail i EBVau a Mynegrifau**

Mae'r holl Werthoedd Bridio Tybiedig yn cael eu hailosod fel eu bod yn seiliedig ar 2015, er mwyn ei gwneud yn haws ac yn fwy perthnasol i brynwyr hyrddod masnachol. Mae'r newidiadau hyn yn golygu bod y man cychwyn yn decach i'r defaid magu heb gofnodion sy'n dechrau cael eu dadansoddi.

**Cymharu perfformiad y diadelloedd gwahanol**

Er mwyn gallu cymharu EBVau diadelloedd gwahanol, rhaid cael dolen enetig rhyngddynt; er enghraifft rhai defaid sy'n perthyn i'w gilydd yn cael eu geni ym mhob diadell. Mae offer ar-lein newydd yn cael ei ddatblygu i ddangos maint y cysylltiad rhwng diadelloedd wedi'u cofnodi gan Signet er mwyn gwybod lle mae modd gwneud cymariaethau.

## Ble alla i gael hyd i wyodaeth?

Gallwch gael hyd i EBVau o'r dadansoddiad newydd yn signetdata.com. Mae gwefan Signet hefyd yn rhoi rhestrau o ddefaid sydd ar werth ar hyn o bryd a mynediad i Flock Finder, sef rhestr o fridwyr sy'n cofnodi eu defaid.

**Sut alla i gymryd rhan?**

Mae Signet yn cynnig ystod lawn o wasanaethau cofnodi ar-lein, ac felly ni fu erioed yn haws. Cysylltwch â Signet i ddechrau cofnodi heddiw. Ebost signet@ahdb.org.uk